

## Ieir San Siôr gan Ian Keith

Daeth un o'r disgyblion i'r ysgol un bore, a dweud eu bod newydd gael ieir gartref. Roedd yn llawn brwdfrydedd wrth ddweud y stori.

Dyma fy meddwl innau yn dechrau troi. Dwi'n dueddol o gael syniadau byrbwyll, heb feddwl trwy'r posibiladau ac weithiau yn eu difaru wedyn.

Mae'r ysgol yn barod yn gartref i ddau gameleon o Yemen, 4 crwban Horsfield a sawl math o filtroed mawr o'r Affrig, ynghyd a llond gwlad o wyfynod.

Cofiais fod gan yr ysgol ddeorydd eisoes, oedd yn hel llwch ar un o silffoedd yn y cyntedd.



Oedd deor wyau ieir am fod yn syniad da?  
Ble fyddem yn ei wneud efo'r cywion ar ôl iddynt ddeor?  
Lle byddem yn cael wyau ieir yn y lle cyntaf?

Roeddwn yn meddwl yn uchel a chlywn un o'r plant yn dweud wrth chwerthin "I be?"  
"Wel byddai'n dda i chi gael gweld wyau yn deor i fod yn gywion ac wedyn yn tyfu i fod yn ieir" medde finau.  
"Naci. Beth am drïo 'e-bay' i brynu wyau?" meddai wedyn.

Anghofwyd am y gwaith oedd wedi'i gynllunio'r bore hwnnw ac aethom at y cyfrifiaduron i weld os oedd modd prynu wyau ieir 'ar-lein'.  
Chwilio am 'chicken eggs' a dod o hyd i 'Portmeirion Chicken egg holder on nest' ac 'Egg Laying Rubber Chicken Keyring Fun Gadget'. Ar ôl didoli'r canlyniadau amherthnasol llwyddom i ddod o hyd i wyau i'w deori.



Roedd yma lu o wahanol rywogaethau, oll hefo enwau reit od: Rhode Island Reds, Pencil-tailed Buff Pekins, Light Sussex a llawer mwy. Roedd yma rywogaethau a phlu are eu traed, rhai a phlu yn troelli ac eraill rhai heb fawr o blu o gwbl. Dyma ni'n rhoi cynnig (bid) ar sawl rhywogaeth ac yna yn syth i safwe arall ([www.amazon.co.uk](http://www.amazon.co.uk)) i brynu llyfrau am ddeor ieir a rhoi tasg i'r plant i ddarganfod pa ieir fyddai'n dodwy'n dda. Er bo gennym sawl cynnig ar rywogaethau yn barod.

Rhywsut neu'i gilydd enillwyd sawl bid a dechreuodd bocsys o wyau gyrraedd trwy'r post. Roeddent wedi cael eu pacio yn eithriadol o dda. Pob wy wedi ei lapio'n unigol mewn papur cyn eu rhoi mewn bocs polystyren. Roeddem wedi darllen bod rhaid cadw'r wyau yn pwyntio at ei fyny mewn stafell gynnes am 24 awr cyn eu gosod yn y deorydd. Yna marcio pob wy a rhoi amserlen ar y wal gyda chyfrifoldeb i bob plentyn yn ei dro i droi'r wyau amser chware, amser cinio, amser chware pnawn a sicrhau nad oeddent yn gorwedd ar yr un ochr dwy noson yn olynol. Nid oedd yma iâr i warchod yr wyau eto.

Roedd penwythnosau yn broblem? Dim plant yn yr ysgol i droi wyau. Dechreuais amau oedd hyn yn syniad da. Rhaid oedd galw i mewn i'r ysgol sawl gwaith dros y penwythnos nes yn y diwedd es a'r deorydd adref efo fi! Roedd yn llai o drafferth!

Yna ar ôl ychydig o ddyddiau dyma ni yn canhwyllo'r wyau. Mae hyn yn ffordd o weld os yw'r cyw yn datblygu o fewn yr wy neu beidio. Rhaid diffodd y golau a goleuo fflach lamp o dan yr wy i oleuo'r tu mewn. Roedd rhai yn anffrwythlon ond mewn rhai ohonynt roedd gwythiennau a chysgodion i'w gweld. Roedd gwyliau yn dod i fyny a doeddwn i ddim yn edrych ymlaen at dreulio'r gwyliau yn troi wyau. Dyma fuddsoddi mewn deorydd fyddai'n troi'r wyau yn awtomatig! Erbyn hyn roedd gennym ormod o wyau ac roedd y ddau ddeorydd yn llawn!!! Roeddem newydd ddechrau Clwb ar ôl Ysgol Cofrestredig. Doedd y niferoedd dim yn ddigon uchel i warantu rhedeg y clwb dros y gwyliau oherwydd byddem yn gwneud ychydig o golled. Ond petai'r clwb yn rhedeg byddai'r plant yn y clwb yn gallu troi'r wyau a finnau yn cael gwyliau. A dyma a wnaethpwyd! Rhedodd y clwb ar golled ond cafodd y wyau eu troi!!!!



Daethom yn ôl i'r ysgol ar ôl y gwyliau a'r bore hwnnw clywsom y cywion yn galw o fewn yr wyau. Dyma un o'r cywion yn deor. Am brofiad bythgofiadwy. Mae'n debyg bydd y plant yn anghofio eu bod i ddysgu am ganrannau a ffracsionau ond fe fyddent yn cofio'r wers yma am byth. Cyw bach yn cwffio allan o'r wy ac yn sychu eu hun. Wow!

Yn anffodus o'r ddau gyw Rhode Island Red ddaeth allan y bore hwnnw, roedd rhywbeth yn bod ar un ac roedd rhaid ymweld â'r milfeddyg. Ni ddaeth y cyw yn ei ôl. Roedd y plant yn ddigalon ac fe gysylltwyd â'r Daily Post i ofyn am gymorth. Bore wedyn roedd erthygl yn y papur yn dweud bod cyw mewn ysgol yn Llandudno yn unig ac yn gofyn a allai'r ffermwr roi cyw i'r ysgol i gadw cwmpeini i 'Cochyn' y Rhode Island Red. Daeth galwad ffôn gan ffermwr o Nefyn yn cynnig cyw a chefais innau daith i Benllyn fore Sadwrn i'w nôl.

Ni chawsom lwyddiant arbennig iawn - dim ond 4 cyw wnaeth ddeor er gwaethaf y ffaith fod dwsinau wedi eu troi yn rheolaidd. Roeddwn wedi bod yn meddwl byddai'n syniad da i gadw'r ieir i gyflenwi wyau i'r gegin. Mae'r ysgol yn ysgol Eco a hefyd yn ysgol sy'n hybu iechyd a theimlais y byddai'n beth da i blant y dref weld yn union o ble daw eu bwyd. Cysylltais â'r ffermwr o Nefyn eto a gofyn a oedd ganddo ieir ar werth. Roedd ganddo 4 Light Sussex a'r rheini yn agos i ddodwy ac fe fyddai yn gallu fy nghyfarfod y tu allan i glwb nos y Boulevard am 11 o'r gloch ar nos Sadwrn. Roedd hyn i gyd yn swnio yn amheus. £20 mewn amlen yn fy mhoced yn sefyll tu allan i glwb nos a phobl ifanc mewn dillad parti yn edrych arnaf yn amheus. Roedd eisoes wedi bod yn ddiwrnod hir gan i ni fynd mynd a chriw o blant yr ysgol i Northampton i dderbyn gwobr gan David Bellamy am waith astudio gwyfynod. Ymhen ychydig, daeth y ffermwr gyda phedair iâr mewn blwch dan ei gesail. Pam mor hwyr medde chi? Wel am fod un ffermwr o Nefyn o leiaf yn ychwanegu at ei incwm drwy weithio ar ddrysau clybiau nos Llandudno.





Erbyn hyn roeddwn wedi creu llecyn i gadw'r ieir. Roedd llecyn delfrydol yn yr ysgol yn barod a dim ond angen rhoi to, giât ac ochr arall oedd angen. Mae 'na lawer o lwynogod o gwmpas Llandudno ac felly roedd rhaid claddu'r ffens yn ddwfn i'w atal rhag dwyn yr ieir. Roedd cyfaill wedi rhoi hen gwt ieir i ni ac roedd y plant wedi rhoi to newydd arno ac wedi ei baentio. Roeddem wedi prynu drws newydd i'r cwt, un fyddai'n agor gyda'r wawr i ryddhau'r ieir a chau yn y nos. Rhoddwyd glaswellt yn y llecyn ond gwastraff o amser fu hynny oherwydd erbyn hyn does dim gwelltyn i'w weld ar ôl i'r ieir grafu'r tir yn ôl i'r pridd.

Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant ac mae'r plant a finau wedi dysgu llawer.



Doedd ddim yn brosiect rhad nac yn brosiect hawdd o gwbl. Roeddwn am i'r wyau gael eu defnyddio yn y gegin ond dywedwyd na fyddai hyn yn bosibl i oherwydd Iechyd a Diogelwch. Pwy fyddai wedi meddwl ynde? Ar ôl dadlau ein hachos cawsom ganiatâd, cyn belled a bod yr wyau yn cael eu coginio.

Mis Chwefror cawsom yr wy cyntaf, ac fe gafodd yr eneth awgrymodd i ni gadw ieir yn y lle cyntaf, yr wy wedi ei ferwi yn y wers llythrennedd. Erbyn diwedd y mis roedd 41 o wyau wedi cael eu dodwy.

## **Rydym oll wedi dysgu llawer am fagu ieir.**

- Rydym yn gwybod ei fod yn hanfodol nad yw'r deorydd yn cael ei agor pan mae'r cyw wrthi'n deor.
- Mae'r ieir yn denu llygod ac felly rhaid cael bocsys pwrpasol yn eu lle yn barhaol i'w gwenwyno.
- Mae angen glanhau'r llecyn ieir yn rheolaidd!! Dydy nhw ddim yn anifeiliaid glan o gwbl!
- Mae amserlen yn ei lle erbyn hyn i sicrhau pa blant sydd yn bwydo a glanhau'r llecyn ieir. Mae'r dosbarth meithrin a'r clwb ar ôl ysgol yn defnyddio'r wyau i wneud cacennau eu hunain ac mae'r gegin yn coginio gyda nhw yn ddyddiol.

Roeddwn yn dysgu gyda'r plant ac yn rhannu'r wefr o weld cylch bywyd yr iâr. Gallwch chithau ddysgu mwy ar safwe'r ysgol [www.sansior.co.uk](http://www.sansior.co.uk) drwy glicio'r iâr.

Rwan ta.....'sgwn i pa brosiect gawn ni ei wneud nesaf...



Gwaith Maes :: Rhifyn 36